Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

CO19210 Ysgol y Wern (Teithio Llesol i'r Ysgol), Llangranog Road

Adroddiad yr Ymgynghoriad

Gorffennaf 2021

Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig i gyflwyno Parth Diogelwch Ysgol ar Llangranog Road yng nghyffiniau Ysgol Gynradd Ysgol-y-Wern. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 12 Mawrth 2021 a 2 Ebrill 2021.

Gweithgareddau Ymgynghori

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol i hyrwyddo'r ymgynghoriad:

- Dosbarthu llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun
- Hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r cynllun
- E-bost at randdeiliaid ac ymgynghoreion statudol
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor

Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Cafwyd 9 o ymatebion unigol yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, ac mae dadansoddiad o'r ymatebion hyn fel a ganlyn:

O Blaid - 5

Aneglur - 2

Yn Erbyn 2

Sylwadau Cefnogol

Croesawodd nifer o drigolion y newidiadau arfaethedig, gan ddweud y byddai'r cynnig yn lleihau cyflymder cerbydau ac yn ei gwneud yn haws ac yn fwy diogel i groesi'r ffordd ac yn gwella diogelwch ar y ffyrdd yn gyffredinol yng nghyffiniau'r ysgol.

Materion Penodol

Mae materion penodol a godwyd trwy'r ymgynghoriad wedi'u nodi isod gydag ymateb y Cyngor. Lle mae'r un mater wedi'i godi gan ymatebydd gwahanol, mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd.

Mater	Ymateb
Roedd preswylwyr yn pryderu y byddai cyflwyno croesfannau sebra yn lleihau nifer y llefydd	Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig lleihau hyd y marciau ffordd igam-ogam. O dan y cynnig hwn,

parcio sydd ar gael ar y stryd ger eu heiddo.	bydd hyn yn osgoi lleihau lle parcio cymaint â phosibl (*gweler y cynllun atodedig*).
Mae trigolion wedi sôn am y posibilrwydd o gyflwyno cyfyngiad unffordd ar hyd Llangranog Road a hefyd ar y ffordd wasanaeth o flaen y siopau.	Byddwn yn adolygu'r ffordd o flaen y siopau i asesu a fyddai system unffordd o fudd i'r lleoliad hwn. Os gellir cyfiawnhau hynny, byddai hyn yn cael ei ddatblygu fel prosiect ar wahân yn ddiweddarach, os bydd cyllid yn caniatáu.
Cafwyd ceisiadau i wella cyffordd Templeton Avenue gyda Thornhill Road	Rydym eisoes wedi ymchwilio i bryderon diogelwch ar y ffyrdd yn y lleoliad hwn, a byddwn yn datblygu cynigion i wneud newidiadau i'r gyffordd. Bydd y prosiect hwn wedyn yn cael ei gyflawni fel cynllun ar wahân pan fydd cyllid yn cael ei ddyrannu yn y dyfodol.
Soniodd preswylydd hefyd y byddai'n ddefnyddiol iawn rhoi croesfan sebra ar Llangranog Road ger y siopau.	Byddwn yn adolygu'r lleoliad hwn i asesu a oes angen croesfan sebra ychwanegol ger y siopau. Os gellir cyfiawnhau hynny, byddai hyn yn cael ei ddatblygu fel prosiect ar wahân yn ddiweddarach, os bydd cyllid yn caniatáu.
Gofynnodd un preswylydd a fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar gais ar gyfer man croesi i gerbydau yn y dyfodol.	Rydym wedi adolygu'r lleoliad a byddwn yn lleihau hyd yr igam-ogam, ni fydd y groesfan sebra yn effeithio ar unrhyw gais yn y dyfodol ar gyfer man croesi i gerbydau.
Gofynnodd rhai preswylwyr am gyfyngiadau parcio ychwanegol fel llefydd parcio i breswylwyr, llefydd parcio i'r anabl a llinellau melyn dwbl hefyd.	Nid oes unrhyw newidiadau arfaethedig i Orchmynion Rheoli Traffig fel rhan o'r cynllun hwn, dylid cyfeirio unrhyw geisiadau am Orchmynion Rheoli Traffig at y tîm Gorchmynion Rheoli Traffig i ymchwilio iddynt, gallwch gysylltu â'r tîm drwy'r manylion isod: Tîm Gorchmynion Rheoli Traffig, Cyngor Caerdydd, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW gwasanaethaucymdogaeth-cymorthbusnes@caerdydd.gov.uk.
Mynegwyd pryderon ynghylch tynhau cyffordd Coed Cochwyn / Llangranog Road	Er y bydd lled y ffyrdd o amgylch nifer o gyffyrdd yn cael ei leihau, bydd digon o le o hyd i draffig lifo'r ddwy ffordd drwy'r cyffyrdd hyn. O ganlyniad i leihau lled y ffyrdd, bydd yn rhaid i gerbydau arafu wrth nesáu at y gyffordd. Mae ymarferion wedi'u cynnal yn ystod y cam dylunio cysyniadol sydd wedi dangos bod modd i gerbydau droi

	heb gael eu rhwystro gan y drefn a gynigir ar gyfer y gyffordd.
Awgrymodd nifer o bobl y posibilrwydd o gyflwyno mesurau cau ffyrdd yn ystod oriau brig ysgolion	Gallwn gadarnhau bod sylwadau wedi'u cyflwyno gan yr Ysgol ynghylch cyflwyno mesurau cau ffyrdd Strydoedd Ysgol yn ystod oriau brig yr ysgol. Mae hyn bellach wedi'i drosglwyddo i'r tîm sy'n delio â'r prosiect Strydoedd Ysgol er mwyn ymchwilio a chysylltu'n uniongyrchol â'r Ysgol. Bydd preswylwyr yn cael eu hysbysu ar wahân os gweithredir prosiect Strydoedd Ysgol ar Llangranog Road.
Derbyniwyd nifer o sylwadau yn ymwneud â cherbydau'n gyrru i fyny ar y droedffordd i basio cerbydau eraill.	Os bydd y cynnig i gau ffyrdd Strydoedd Ysgol yn mynd rhagddo yna mae'n debygol y byddai hyn yn lleddfu'r materion hyn. Os na fydd y prosiect cau ffyrdd ysgol yn mynd yn ei flaen, byddwn yn parhau i fonitro'r mater hwn er mwyn nodi a oes angen unrhyw fesurau adferol.
Derbyniwyd sylwadau yn nodi os na chaiff y cyfyngiadau newydd eu gorfodi yna mae'n debygol y cânt eu hanwybyddu a byddai gyrwyr yn debygol o anwybyddu'r cyfyngiadau.	Mae Swyddogion Gorfodi Sifil y Cyngor yn gorfodi'r cyfyngiadau parcio presennol yn rheolaidd, ond dylid cyfeirio unrhyw gais am orfodi'r cyfyngiadau parcio presennol at y Swyddogion Gorfodi Sifil y gellir cysylltu â hwy drwy C2C ar 029 2087 2088.
Cododd preswylydd y cwestiwn ynghylch sut y caiff materion a risgiau diogelwch eu nodi a sut yr ystyrir yr atebion.	Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'r ysgol i nodi gwelliannau priffyrdd a fydd yn helpu disgyblion ysgol a rhieni i deithio i'r ysgol gan ddefnyddio dulliau gweithredol fel cerdded, sgwtio a beicio. Wrth ddatblygu'r prosiect, gwelwyd disgyblion ysgol yn croesi'r ffordd rhwng ceir wedi'u parcio, bydd y mesurau arfaethedig yn darparu croesfannau ffurfiol a fydd yn helpu i greu amgylchedd priffordd mwy diogel.
Tynnodd yr Ymatebwr sylw at y ffaith bod nifer sylweddol o rieni/disgyblion sy'n gyrru i'r ysgol, bod cyflymder traffig araf ac nid oes angen cyfleusterau croesi nac arafu traffig ar Llangranog Road.	Mae swyddogion y Cyngor wedi bod yn gweithio gyda'r ysgol i'w helpu i ddatblygu eu Cynllun Teithio Llesol i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â sut mae eu staff a'u disgyblion yn teithio i'r ysgol, gyda'r pwyslais ar annog cerdded, sgwtio a beicio. Mae'r cynllun yn dangos ymrwymiad ysgol i hyrwyddo teithio llesol trwy bolisïau penodol a gweithgareddau addysgol yn ogystal â nodi gwelliannau seilwaith i'r dyfodol y tu allan i gatiau'r ysgol i wneud cerdded a beicio'n haws ac yn fwy diogel. Mae nifer o'r camau y maent wedi'u nodi eisoes ar y gweill. Mae'r rhain yn cynnwys gosod cyfleusterau parcio beiciau newydd ar safle'r ysgol a'r bwriad o osod arwyneb newydd ar lwybrau drwy Barc Llanisien.

	Unwaith y byddant wedi'u rhoi ar waith, bydd y llwybrau'n darparu llwybrau defnydd a rennir oddi ar y ffordd drwy gydol y flwyddyn i'r ysgol y gellir eu defnyddio at ddibenion Parcio a Cherdded. Disgwylir i'r cynllun gael ei gwblhau ddechrau Mehefin 2021. Bydd y mesurau arfaethedig yn creu croesfannau mwy diogel i gerddwyr, a bydd y mesurau arafu traffig yn sicrhau bod cyflymderau cerbydau arafach yn cael eu cynnal.

Canlyniad yr Ymgynghoriad

O ystyried yr ymgynghoriad cyhoeddus, cynigir **bwrw ymlaen** â'r cynnig diwygiedig fel y dangosir ar y cynllun amgaeedig.

Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar newidiadau arfaethedig i'r briffordd, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.

CARDIFF
CAERDYDD



Following the recent consultation on proposed changes to the highway, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.

CARDIFF
CAERDYDD

Yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar ar newidiadau arfaethedig i'r briffordd, mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun diwygiedig a welir. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.

CARDIFF
CAERDYDD





Following the recent consultation on proposed changes to the highway, the Council is preparing to implement the scheme based on the revised plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.

CARDIFF
CAERDYDD